

## PROGRAMME 2006

|              |                                       |                      |
|--------------|---------------------------------------|----------------------|
| 26 January   | Hafan Tramway                         | Robert Ireland       |
| 23 February  | <i>Interesting stories of Llandre</i> | Eddie Jones          |
| 30 March     | <i>Planning interesting trails</i>    | Shelagh Hourahane    |
| 27 April     | <i>Growing up in Llandre</i>          | Dafydd Hyws          |
| 25 May       | <i>Organic Forest Honey</i>           | Richard Hobson       |
| 29 June      | <i>Visit Hafod Estate</i>             | Jennifer Macve       |
| 26 July      | <i>Llandre woods walk</i>             | Roger Haggar         |
| August       | Holiday break                         |                      |
| 28 September | <i>Vintage agricultural machines</i>  | Peter Watkin         |
| 26 October   | <i>Some recollections of the law</i>  | Lord Elystan -Morgan |
| 23 November  | AGM                                   |                      |
|              | <i>Agriculture in Genau'r Glyn</i>    | Penri James          |
| 14 December  | Christmas lunch                       |                      |

*Meetings will normally be held in Ysgoldy Bethlehem, Llandre on the last Thursday of the month, starting at 7.30 pm.*

## Rhaglen 2006

|             |   |                   |
|-------------|---|-------------------|
| 26 Ionawr   | Tramffordd yr Hafan                     | Robert Ireland    |
| 23 Chwefror | Storiau diddorol am Llandre             | Eddie Jones       |
| 30 Mawrth   | <i>Cynllunio Llwybrau Diddorol</i>      | Shelagh Hourahane |
| 27 Ebrill   | <i>Tyfu yn Llandre</i>                  | Dafydd Huws       |
| 25 Mai      | <i>Mél o Fforest Organig</i>            | Richard Hobson    |
| 29 Mehefin  | <i>Ymweliad ag Ystad yr Hafod</i>       | Jennifer Macve    |
| 26 Gorff    | <i>Cerdded trwy Goed Llandre</i>        | Roger Haggar      |
| Awst        | Toriad Gwyliau                          |                   |
| 28 Medi     | <i>Hen beiriannau amaethyddol</i>       | Peter Watkin      |
| 26 Hydref   | <i>Fy Mywyd yn Farnwr</i>               | Elystan Morgan    |
| 23 Tachwedd | CCB                                     |                   |
|             | <i>Amaethyddiaeth yng Ngenau'r Glyn</i> | Penri James       |
| 14 Rhagfyr  | Cinio Nadolig                           |                   |

*Fel rheol bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Ysgoldy Bethlehem ar nos lau olaf bob mis, gan ddechrau am 7.30.*

## Thanks to:

**Hedydd and John Cunningham** for providing financial monitoring and auditing services on a voluntary basis.  
**Llinos Dafis and Vernon Jones** for translating and proof reading the Newsletter.

## Diolch i:

**Hedydd a John Cunningham** am ddarparu gwasanaethau monitro ac archwilio ariannol yn wirfoddol.  
**Llinos Dafis a Vernon Jones** am gyfieithu a phrawf ddarllen y Llythyr Newyddion.

## Contact Secretary (820314) for:

Back issues of the Newsletter;  
Llandre Guide Map (free);  
Llandre Community Audit (£4);  
Llandre Directory Map (£4); Firewood (£1)

## Ysgrifennydd Cyswllt (820314) ar gyfer:

Ôl-rifynnau o'r Llythyr Newyddion;  
Map Tywys Llandre (am ddim);  
Archwiliad Cymunedol Llandre (£4);  
Map Cyfeirio Llandre (£4);  
Coed Tân (£1)



## Cydnabyddiaeth / Acknowledgements

*Cymorth ariannol cyfredol: Cydcoed a'r Gronfa Risg Gymdeithasol  
Golygydd Technegol / Technical Editor: Chris Shaftoe  
Golygydd Cyffredinol / General Editor: Roger Haggar*

*Cydcoed, Cronfa Risg Cymdeithasol, Cronfa Eleri a Chyngor Cymuned Genau'r Glyn am gefnogaeth ariannol  
Cydcoed, Social Risk Fund, Cronfa Eleri and Genau'r Glyn Community Council for financial support*

*Y Lolfa am argraffu'r llythyr newyddion / YLolfa for printing the Newsletter*



## Gwanwyn 2006 Spring

Charity No: 1106079

## Cyffwrddiad / Contact Us:

Roger Haggar, Secretary  
Sycamores, Llandre  
Aberystwyth SY24 5BX  
01970 820314  
rogerhaggard@hotmail.com

[www.llandre.org.uk/  
index.php](http://www.llandre.org.uk/index.php)

## Pwyllgor Gwaith / Executive Committee

Randall Enoch \*  
Roger Haggar \*\*  
Hugh Davies \*\*\*  
Mared Breeze  
Llinos Dafis  
Colin Hancock  
John Ibbotson  
Wynne Mel Jones  
Brian Thomas  
Brenda Williams

\* Cadeirydd/Chairman  
\*\* Ysgrifennydd/Secretary  
\*\*\* Trysorydd/Treasurer

## Wanted:

**Deputy Editor**  
to assist with production of Newsletter.

**Volunteers**  
to assist with stone wall building, path construction and woodland work.

**Yn eisiau:**  
Dirprwy Olygydd i gynorthwyo gyda chynhyrchu'r Llythyr Newyddion.

**Gwirfoddolwyr:**  
i helpu gyda chodi walydd cerrig, creu llwybrau a / neu waith ar goetiroedd.

Treftadaeth Llandre Heritage  
Newyddion/Newsletter

## Neges y Cadeirydd

Mae hi'n anrhydedd fawr bod yr Arglwydd Elystan Morgan, un o feibion mwyaf nodedig ein cymuned, wedi cytuno i fod yn Llywydd cyntaf i ni. Bu'n AS dros Geredigion o 1967 hyd 1975. Ar ôl gadael gwleidyddiaeth bu'n Fargyfreithiwr uchel ei barch ac fe'i hanrhydeddwyd drwy roi iddo Arglwyddiaeth Oes yn 1981. Bu'n farnwr ar Gylchdaith Cymru a Chaer o 1987 hyd 2003. Edrychwn ymlaen at ei glywed yn rhannu rhai o'i atgofion o'r Gyfraith gyda ni yn yr Hydref.

Mae'r offer cyfieithu, a brynwyd yn garedig iawn i ni gan gyllid oddi wrth Gronfa Eleri, yn gymorth mawr i'r sawl y mae eu gwybodaeth o'r Gymraeg yn gyfyng. Rydym yn ddiolchgar i Llinos Dafis yn ei swyddogaeth fel cyfieithydd. Mae llawer o waith wedi ei gwblhau yn y coetiroedd ac mae'r llwybrau cerdded eisoes yn profi'n boblogaidd.

Mae gennym raglen ddiddorol arall o sgysiau ac ymweliadau ar gyfer 2006. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd yn rhoi cefnogaeth ariannol a'r bobl hynny sy'n gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant Treftadaeth Llandre Heritage.

## Chairman's Message

It is a great honour that Lord Elystan-Morgan, one of our community's most distinguished sons, has agreed to be our first President. He served as MP for Cardiganshire (1967 - 1975). On leaving politics he became a distinguished Barrister, being created a Life Peer in 1981. He was a Judge of the Wales and Chester Circuit from 1987 to 2003. We look forward to his sharing some recollections of the Law with us in the autumn.

The translation equipment, kindly bought for us by funding from Gronfa Eleri, is proving a great help to those whose knowledge of Welsh is limited. We are grateful to Llinos Dafis in her role as translator. Much work has been completed in the woodland areas and the walks are already proving popular.

We have another interesting programme of talks and visits for 2006. I am grateful to all those who give financial support and those who work so hard to ensure the success of Treftadaeth Llandre Heritage.

Randall Enoch

Specialists in innovative heritage interpretation and community design projects.

Gwel-y-Garn, Tre'r Ddol, Machynlleth SY20 8JS  
\* # 01970 832 898

shelagh@creu-ad.co.uk and lynne@creu-ad.co.uk



Most of the early visitors to Wales came seeking to explore and experience the landscape. They had to be fit, healthy and brave – and have resources to devote to a month or two's trip. Ceredigion, being centrally located, attracted more visitors than other areas of Wales; many came specifically to visit Devil's Bridge, Hafod and Aberystwyth.

The places they visited were quite restricted because they had to keep to a few main routes where they could get food and accommodation for themselves and their horses. Many visitors searched for the beautiful, the sublime, the picturesque and the romantic, and hoped to discover evidence of an idyllic, mythical past.

Some came to recover their health by taking the waters at Aberystwyth. Others came to study antiquities, natural history and geology; a very few came to study the language and culture of Wales. Some came to escape the spread of industrialisation in England.

They wrote extensively about the landscape and described towns, villages, costumes and character of the Welsh - and reported the worst sort of cottages and inns. Most of them couldn't speak Welsh and so were unable to learn much from the local population; anyway, they were in a hurry, often staying only one night, and rushing off early in the morning.

### Ymwelwyr â Cheredigion, 1780-1830

Dôl'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr cynnar i Gymru er mwyn archwilio a phrofi'r tirwedd. Roedd gofyn iddyn nhw fod yn gryf, yn iach ac yn ddewr – a bod â'r modd i neilltuo mis neu ddau ar gyfer y daith. Gan fod Ceredigion yn y canol denai fwy o ymwelwyr nag ardaloedd eraill; dôl rhai yn benodol i ymweld â Phont-ar-Fynach, yr Hafod ac Aberystwyth.

Nifer gweddol gyfyngedig o fannau y bydden nhw'n ymweld â nhw am fod rhaid dilyn y prif lwybrau lle gallen nhw gael bwyd a llety iddyn nhw'u hunain a'u ceffylau. Chwiliai llawer o'r ymwelwyr am yr hardd, yr aruchel, y darluniadol a'r rhamantus, gan obeithio darganfod tystiolaeth o orffennol swynol-symbl, chwedlonol.

Dôl rhai i gael adferiad iechyd drwy gymeryd y dŵr yn Aberystwyth, ac eraill i astudio henebion, hanes naturiol a daeareg. Dôl ychydig i astudio iaith a diwylliant Cymru, a rhai i ddianc rhag lledaeniad diwydiannu yn Lloegr.

Bu cryn ysgrifennu am y tirwedd, gan ddisgrifio trefi a phentrefi, dillad a chymeriad y Cymry – gydag adroddiadau am fythynnod a thafarnau o'r math gwaethaf. Gan nad oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw'n gallu siarad Cymraeg allen nhw ddim dysgu llawer gan y bobl leol; a pheth bynnag byddai brys arny'n nhw, yn aml dim ond am un noson bydden nhw'n aros gan frysio i ffwrdd fore trannoeth.

A few were Welsh, and these produced some very important works. Thomas Pennant of north Wales is considered to be the father of the Welsh travel writers; Walter Davies wrote two volumes on the state of Agriculture in Wales between 1790 and 1815. He came from near Montgomery and knew the language, the land and stories of people of Wales.

A number of professional artists came to Ceredigion during this time. Using the new technique of watercolour painting they produced views of what they had seen, quickly and with very little equipment.

Individually, these visitors tell us much about the detail and colour of the county during this period. Most importantly, they provide descriptions and evidence of traditions that were just beginning to die out.

**Michael Freeman**

Amgueddfa Ceredigion Museum



Roedd rhai yn Gymry; ac fe gynhyrchodd y rheiny weithiau o wir bwys. Ystyrir mai Thomas Pennant o'r gogledd yw tad awduron taith am Gymru; ysgrifennodd Walter Davies ddwy gyfrol ar gyflwr Amaethyddiaeth yng Nghymru rhwng 1790 ac 1815. Roedd e'n dod o gyffiniau Trefaldwyn, yn siarad Cymraeg ac yn gyfarwydd â thir, hanesion a phobl Cymru.

Yn ystod yr un cyfnod daeth nifer o arlunwyr proffesiynol i Geredigion. Drwy ddefnyddio techneg newydd paentio dyfrlliw gallen nhw baentio'r golygfeydd y bydden nhw'n eu gweld yn gyflym, heb gludo fawr o offer.

Cawn wybod llawer gan bob un o'r ymwelwyr hyn am fanylion a lliw y wlad yr adeg honno. Yn bwysicach, cawn ddisgrifiadau a thystiolaeth o draddodiadau a oedd ar fin mynd i ddifancoll.

#### LIONEL CURTIS RORY WILSON PENSEIRI / ARCHITECTS

New Build, Conversion, Conservation, Reuse,  
Domestic, Commercial / Retail, Community,  
Ecclesiastical, Education, Special Needs.

www.aberystwytharchitects.co.uk  
THE CAMBRIA, MARINE TERRACE,  
ABERYSTWYTH, SY23 2AZ  
Tel: 01970 615279 & 07914 587982

### 1. Coetiroedd

Mae cam cyntaf y cynllun tair blynedd i wella coetiroedd, gyda chyllid gan Cydcoed, wedi ei gwblhau. Mae nifer o goed peryglus a oedd yn fygythiad i'r ffordd fawr, i lwybrau cyhoeddus ac i gerrig beddau yn yr hen fynwent wedi eu tynnu i lawr gan James Prior, Canopy & Countryside. Mae Rob Marsh, Woodland Services, yn cynnal asesiad risg i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer gwaith ar goed y fynwent yn y dyfodol. Mae coed hefyd yn cael eu nodi yn y coedydd o gwmpas, yn gam cyntaf yn y rhaglen deneuo y mae Phil Morgan, Sustainable Forest Management, yn ei chyfarwyddo, ac mae gwirfoddolwyr o fyfyrwyr yn lledu llwybr drwy goed Tyddyn.

Un o brif nodau'r gweithgareddau yma yw annog pobl i archwilio'r coetiroedd mewn ffordd sy'n rhoi profiad sbardunol a chofiadwy iddyn nhw. I'r diben hwn mae Shelagh Hourahane, Crue-ad, yn paratoi Cynllun Dehongli i alluogi'r gymuned, gan gynnwys plant ysgol, i

fynegi ei hymdeimlad o le a gwerth y dreftadaeth naturiol. Mae'r gwaith o hwyluso mynediad i'r coetiroedd yn cynnwys adeiladu cilfan ar y ffordd o gwmpas y fynwent, tarmacio'r ffordd at borth y fynwent a'r llwybr at yr hen ywen, a helaethu'r maes parcio o dan yr Eglwys.

### 2. Walydd Cerrig Sych

Mae hyfforddiant mewn codi walydd sych ar stop am y tro (yn dilyn cau'r Ganolfan Adfer Cyffuriau yn Llanbadarn), ond y bwriad yw aildechrau yn y Gwanwyn, gyda chyllid o'r Gronfa Risg Gymdeithasol.

### 3. Ymchwil Hanesyddol

Mae Randall Enoch yn parhau â'i ymchwil i hanes teuluoedd lleol, a thraddodiadau mwyngloddio a'r cefn gwlad, yn sail i'w lyfr nesaf ar hanes seciwlar Llandre.

**Roger Haggart**

## Project Reports

### 1. Woodlands

The first phase of a three-year woodland improvement scheme, funded by Cydcoed, has been completed. Several dangerous trees threatening the highway, public footpaths and gravestones in the old graveyard have been taken down by James Prior, Canopy & Countryside. Rob Marsh, Woodland Services is carrying out a detailed risk assessment to determine priorities for future tree work within the graveyard. Trees are also being marked in the surrounding woods, as a first step in a thinning programme directed by Phil Morgan, Sustainable Forest Management, and student volunteers are widening the new path through Tyddyn wood.

A major aim of these activities is to encourage people to explore these woodlands in a way that creates a memorable and thought provoking experience. To this end, an Interpretive Plan is being drafted by Shelagh Hourahane, Crue-ad as a vehicle through which the community, including school children, can express its sense of place and value of the natural heritage.



Improvements to access and approaches to the woodlands include: construction of a lay-by on the road around the graveyard; tarmacing of the Lychgate road and path to the ancient yew; enlargement of car park below the Church.

### 2. Dry stone walling

Training in dry stone walling is temporarily on hold (following the closure of a Drug Rehabilitation Centre in Llanbadarn) but is planned to resume in the Spring, funded by Social Risk Fund.

### 3. Historical research

Randall Enoch is continuing his research on local family histories, mining and rural traditions, as a basis for his forth-coming book on the secular history of Llandre.

**Roger Haggart**

## LOCAL SAWMILL

Timber sawn, posts cut to size

Tree removal services

Firewood delivered

**Dafydd Williams**

Penywern, Talybont SY24 5EJ

\* 01970 832382 (07791107353)

## Dyfodol Cymunedau Gwledig yng Ngheredigion

Y peth mwyaf trawiadol ynghylch cymunedau gwledig Ceredigion yw eu bod i gyd yn wahanol, ond er hynny'n wynebu nifer o wasgfeydd tebyg sydd â goblygiadau pwysig i'r dyfodol. Mae patrymau gwaith a hamdden wedi newid llawer. Hyd ganol y ganrif ddiwethaf, roedd mwy o bobl yn byw *ac* yn gweithio yn yr un lle; roedd mwy o ffermydd a ffermwyr, ac roedd gan bob pentref ei ysgol, swyddfa'r post, a nifer o siopau. Bellach mae pobl yn fwy symudol, felly mae ystyriaeth i fywyd pentrefol yn canolbwyntio mwy ar wella ansawdd bywyd y pentrefwyr, tra'u bod yn gweithio rywle arall. Mae tai yn ddrutach, a bu cynnydd mawr yn y boblogaeth am fod pobl yn dod i mewn o'r tu allan yn hytrach nag oherwydd proses naturiol genedigaethau.

Yn y dyfodol wrth i bris teithio gynyddu, bydd tuedd i fwy o ganoli. Mae bygythiad y bydd Aberystwyth, hyd yn oed, y dref sy'n tyfu fwyaf yn y canolbarth, yn colli rhai o'r gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae'r tirwedd o gwmpas pentrefi hefyd yn mynd i newid yn gyflym wrth i ddiwygiadau i gymorthdaliadau i ffermydd beri i newidiadau strwythurol mawr ddigwydd mewn amaethyddiaeth. Bydd sgil-efeithiau'r rheiny yn golygu rhagor o arian ar gyfer datblygu gwledig. Ar yr ochr arall

### The Future of Rural Communities in Ceredigion

The most striking thing about rural communities in Ceredigion is that they are all different, but they do face a number of similar pressures that have important implications for the future. Work and leisure patterns have changed a lot. Until the middle of the last century, more people lived *and* worked in the same place; there were more farms and farmers, and each village had its school, post office and several shops. Now people are more mobile, so the focus of village life is more about improving the quality of residential life, and work is elsewhere. Housing is more costly, and strong population growth has resulted from people coming in from outside rather than from a natural birth rate.

In future, as the cost of travel rises, the tendency will be for more centralisation. Even Aberystwyth, the fastest growing town in Mid Wales, is threatened with loss of some key public services. The landscape around villages is also going to change rapidly, as reforms to farm support allow big structural changes to occur in agriculture. Side effects of this will mean more money for rural development. On the other side, it is already difficult for young people to afford local housing, and as we all live longer but become more dependent, there may be a future crisis of care in the local community.

mae hi'n anodd yn barod i bobl ifainc allu fforddio tai lleol a chan ein bod ni i gyd yn byw'n hŷn ond yn mynd yn fwy dibynnol, fe allai fod argyfwng yn y dyfodol o ran gofal yn y gymuned.

Yn y tymor hir bydd Llandre, yr un fath â llawer i bentref gwledig arall, yn tyfu'n fwy. Os digwydd hynny'n rhy gyflym, gall ddifetha'r agosatrydd a'r ymdeimlad o berthyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, a gallai tirwedd unigryw y pentrefi gael ei gorlanw a mynd yn llai deniadol. Oherwydd y gymhareb rhwng cost tai a chyflogau, bydd gofyn i'r preswylwyr newydd hyd yn oed fod yn eu canol oed hwyr i allu fforddio prynu. Felly mae angen anelu at gael cydbwysedd drwy hyrwyddo datblygu sy'n defnyddio treftadaeth gyfoethog ac archaeoleg y cefn gwlad i ddod ag o leiaf rai swyddi o ansawdd da i'r pentref ei hun.

*Rhaid i Ymddiriedolaeth Treftadaeth Llandre fod yn ddigon cryf i leisio'r pryderon hyn ac efallai i ddatblygu'n ehangach i ddarparu cyfleoedd economaidd i bobl ifainc i ymgartrefu a dod â bywyd newydd i'r pentref ei hun.*

Peter Midmore, Llandre



In the longer term, Llandre, like many other villages in the county, will become larger. If this process is too fast, it may break down the identity and feeling of togetherness that currently exists, and the unique village-scape we currently have may become more cluttered and less attractive. But because of the ratio between the cost of housing and wages, even the new residents will need to be in late middle age to be able to afford to buy. So there is a difficult balancing act to perform, trying to promote development that uses the rich heritage of countryside and archaeology, and use it to bring back at least some good quality jobs to the village itself.

*Llandre Heritage Trust needs to be strong enough to give voice to these concerns and perhaps develop more widely to provide economic opportunities for young people to settle in and give new life to the village itself.*

Peter Midmore, Llandre

#### CYNGOR CYMUNED GENAU'R GLYN COMMUNITY COUNCIL

Yn eisiau; clerck i'r Cyngor Uchod  
Tua 3 awr yr wythnos  
Cyflog yn ôl profiad / chymwysterau  
Cysylltwch â: Glenys Evans,  
Llwynysguborwen, Talybont, SY24 5EQ  
Ffôn: 01970 832386

Wanted: Clerk  
about 3 hours per week  
Pay according to experience / qualifications  
Further details, contact: Glenys Evans,  
Llwynysguborwen, Talybont, SY24 5EQ  
Tel: 01970 832386

## Hanesion Llandre

*Dyfyniadau o "Hanes Llandre a Bow Street"*  
gan Eddie Jones

Sefydlwyd Cyfrinfa Gwir Iforiaid Castell Gwallter yn 1841 yn gymdeithas ddyngarol i ofalu am les ei haelodau. Cynhaliai'r Iforiaid gwreiddiol eu cyfarfodydd yn Nhafarn y Llew Du (Croesawdy bellach) gydag aelodaeth o 90 yn talu punt a chweugain bob blwyddyn.

Talai'r Clwb arian i'w aelodau ar gyfer benthyciadau, genedigaethau, salwch a marwolaethau. Yn drist iawn ar Fedi'r 18fed 1846 cofnodwyd marwolaeth mam ar enedigaeth baban fel a ganlyn: "Talwyd i David Thomas £1-10-0 ar farwolaeth a chladdedigaeth ei wraig, a 5 swllt ar enedigaeth plentyn."

Roedd rhaid i bob aelod fynychu claddedigaeth aelod a thalu chwecheiniog. Byddai'r Clwb hefyd yn cynnal gŵyl flynyddol pryd byddai'r aelodau'n gorymdeithio y tu ôl i'w baner i gyfeiliant band. Yn Gymraeg roedd holl weinyddiaeth y Clwb.

Yn 1853 symudodd yr Iforiaid i adeilad newydd a elwid yn Tŷ Clwb (Penlan bellach). Byddent yn cyfarfod yn yr ystafell hir. Roedd grisiau'r tu allan yn arwain at fynedfa i'r ystafell honno. Yn yr ystafell gyfarfod byddai bwrdd hir gyda meinciau bob ochr iddo, a chist fawr lle cedwid yr arian, y llyfrau cofnodion, a'r dillad seremonïol. Byddai pob aelod yn gwisgo rhuban hir lliwgar, fel y gwelir yn y llun.

Ffynnai'r Gyfrinfa ddiwedd y 19eg ganrif ond yna bu gostyngiad graddol hyd at 1948, pan gaewyd y Clwb a rhannu'r arian rhwng y tri aelod olaf.

Symudwyd y plâc a oedd ar y wal i nodi Tŷ Clwb i Sain Ffagan i'w gadw, er bod y man gwag a adawyd ar ei ôl yn dal i fod i'w weld yn glir o'r ffordd. Gallwch hefyd weld y llyfr aelodaeth, y cofnodion a'r llythyron gwreiddiol, a gedwir bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol. Pan fyddwch yn ymweld â Sain Ffagan gofynnwch am gael gweld Baner y Clwb a phlâc Tŷ Clwb.

**SWYDDFA'R POST  
BOW STREET**

NWYDDAU  
MELYSION  
CYLCHGRONAU  
CARDIAU CYFARCH  
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL

**JOHN A MARIA OWEN**



Glyn Williams - Ysgoldy Bethlehem

## Stories of Llandre

The Ivorites by Eddie Jones

The Lodge of the True Ivorites of Castell Gwallter was established in 1841 as a humanitarian society supporting the well being of its members in Llandre. The original Ivorite Club meet in the Black Lion Inn (now Croesawdy) with a membership of 90 paying an annual membership of one pound ten shillings.

The Club paid money to members for loans, births, sickness and death. For instance, a sad minute of 18 September 1846 recorded a mother dying during childbirth as: "Paid David Thomas on the death and burial of his wife, £1-10-0 and birth of a child, 5 shillings".

Every Ivorite had to be present at a member's funeral and pay 6 pence. The Club marched to the funeral, led by its own flag and a band. The Club also held an annual festival and was very supportive of Welsh culture and literature.

In 1853 the Club moved to a new building called Tŷ Clwb (since renamed Penlan). The Ivorites met in the upper long room, reached by an outside flight of stairs leading to a wooden entry door. The meeting room contained a long table, with benches on each side, and a huge chest to keep money, minute books, and ceremonial robes. Each member wore a long, colourfully striped sash, as shown in the photograph.

Membership flourished during the late 1800's but then slowly declined until 1948, when the Club was closed and the remaining money shared between the last three members.

A wall plaque that originally commemorated Tŷ Clwb was eventually moved to St Fagans for safekeeping, although the gap left by the plaque's removal is still clearly visible from the road. Similarly, you can view the original membership book, minutes and letters now stored in the National Library. Also, when you visit St Fagans, ask to see the Club Flag and the Tŷ Clwb Plaque.

## Fallen Heroes of Llanfihangel Genau'r Glyn

A brass memorial plaque in Llandre Church bears the names of thirty-nine of its parishioners who served in The Great War, six of whom were never to return:

*Pte J P Hughes; Pte J King; Pte Griffith Evans Morgan  
Pte Edwin Thomas Richards; Pte C F Roberts; Dvr R A Wynne.*

Edwin Richards served in Egypt and is buried in Cairo (see photo). Griffith Morgan, who fell in the final push for victory, has no known grave but is commemorated on the Soissons Memorial to the Missing. A stained glass window in the church also records his sacrifice. Similarly, Pte J P Hughes has no known grave and is commemorated on the Menin Gate Memorial in Ypres, having fallen at Passchendaele in 1917.

The events of 1914 - 1918 were to touch most families as its men left for war, and evidence of the conflict can be found in every community as a lasting tribute to those who fell - its war memorials. After the war, remembering the dead became part of the healing process and memorials were erected at the heart of the community; the village green, the school or places of worship. The local memorial helped the bereaved to come to terms with their loss – the son who had done his duty or the husband for whom death was quick and painless. Today their memory is etched on the landscape.

*Squire nagged and bullied till I went to fight,  
(Under Lord Derby's Scheme). I died in hell  
(They called it Passchendaele). My wound was slight,  
And I was hobbling back; and then a shell  
Burst slick upon the duck-boards: so I fell  
Into the bottomless mud, and lost the light.*

Siegfried Sassoon 1917

For details of the above memorials see:

*United Kingdom National Inventory of War Memorials* ([www.ukniwm.org.uk](http://www.ukniwm.org.uk)).

**Gil Jones**, Llysnewydd, Llandre

### Arwyr Syrthiedig Llanfihangel Genau'r Glyn

Mae plâc coffa o bres yn Eglwys Llandre sy'n dwyn enwau tri deg a naw o'r plwyfolion a wasanaethodd yn y Rhyfel Mawr. Ddaeth chwech ohonyn nhw ddim yn ôl.:

*Pte J P Hughes; Pte J King; Pte Griffith Evans Morgan  
Pte Edwin Thomas Richards; Pte C F Roberts; Dvr R A Wynne.*

Bu Edwin Richards yn gwasanaethu yn yr Aifft a chael ei gladdu yn Cairo. Nid oes bedd wedi ei nodi i Griffith Morgan, a syrthiodd yn yr ymdrech olaf am fuddugoliaeth, ond fe'i cofir ar Gofeb Soissons i'r Colledig. Mae ffenestr liw yn yr eglwys hefyd yn cofio'i

aberth. Yn yr un ffordd nid oes bedd wedi ei nodi i Pte J P Hughes a syrthiodd yn Passchendaele yn 1917, ond fe'i cofir ar Gofeb y Menin Gate yn Ypres.

Cyffyrddodd digwyddiadau 1914 - 1918 â'r rhan fwyaf o deuluoedd wrth i'w dynion fynd i'r rhyfel. Saif y cofebau rhyfel a welir ym mhob cymuned yn dystiolaeth weladwy o'r gwrthdaro ac yn deyrnged barhaus i'r rhai a syrthiodd. Ar ôl y rhyfel, daeth cofio'r meirwon yn rhan o'r broses iacháu a chodwyd cofebau yng nghanol pob cymuned; ar sgwâr y pentref, yn yr ysgol neu mewn mannau addoli. Roedd y gofeb leol yn helpu'r galarus i ddod i delerau â'u colled – y mab a oedd wedi gwneud ei ddyletswydd neu'r gŵr a gafodd farwolaeth gyflym, ddi-boen. Erbyn heddiw mae'r cof amdanyn nhw wedi ei naddu ar y dirwedd.

*O Gofadail gofidiau tad a mam!  
Tydi mwy drwy'r oesau  
Ddysgi ffordd i ddwys goffâu  
Y rhwyg o golli'r hogiau.*

R. Williams Parry

Am fanylion am y cofebau uchod gweler:

*United Kingdom National Inventory of War Memorials* ([www.ukniwm.org.uk](http://www.ukniwm.org.uk)).

**Gil Jones**, Llysnewydd, Llandre

Fallen stones,  
graveyard wall,  
Llandre.



## Mwyngloddio yng Ngheredigion

(Dyfyniad o lyfr newydd Randall Enoc)

Bu cloddio am blwm ac arian yng Ngogledd Ceredigion am ganrifoedd lawer. Agorodd y Rhufeiniaid lawer o fwyngloddiau o gwmpas Llandre a Thalybont, yr un fath â phobl yr Oes Efydd a'r Oes Haearn o'u blaenau. Mae tystiolaeth o sbwriel mwyngloddio ar wasgar ar hyd y wlad, yn gofnod ingol o galedi ac amgylchiadau eithafol bywyd y mwyngwyr, ac mae cerrig beddau mewn llawer i fynwent yn dystiolaeth o'u marwolaethau cynnar.

Dechreuwyd mwyngloddio'n drefnus tua 1550 pan agorwyd mwynglawdd ger Talybont. Er hynny aeth hwn dan ddŵr yn fuan iawn ac fe'i gadawyd tan 1600 pan ddaeth unwaith eto yn ffynhonnell bwysig o blwm. Ar ôl hynny arian, a oedd yn fwy gwerthfawr, fu'n denu chwilwyr a daethpwyd o hyd i dipyn go lew yng Nghwmsymlog.

Yn gynnar yn yr 17eg ganrif cymerodd Syr Hugh Myddleton dir yng ngogledd Ceredigion ar les gan Iago'r Iaf a gwneud ffortiwn bersonol anferth o fwyngloddio. Defnyddiodd ei gyfoeth i ddarparu cyflenwad dŵr i Lundain. O 1637 cyflwynodd Thomas Bushell well

technegau mwyngloddio yn ardal Talybont. Bathodd hefyd ddarnau arian yng Nghastell Aberystwyth, a oedd yn dwyn stamp plu estrys. Roedd mor gyfoethog fel ei fod wedi gallu dilladu byddin Siarl Iaf i gyd a chynnal catrawd o filwyr o blith y mwyngwyr.

Er hyn i gyd gadawodd Bushell yn 1647 gyda dyledion mawr, oherwydd ansicr a byr ei barhad oedd mwyngloddio bob amser. Yn ôl bonheddwr lleol "Mae mwyngloddio yn cyfoethogi un neu ddau mewn oes, ac yn arwain at dlodi i gannoedd am genedlaethau wedi hynny... mae'r dyfroedd o'r mwyngloddiau yn gwneud y caeau cyfagos yn ddiffwrwyth ac yn lladd holl bysgod yr afonydd"

Dim ond yn 1689, pan ddaethpwyd o hyd i arian yn Esgairhir i'r dwyrain o Talybont ar dir oedd yn eiddo i Syr Carbery Pryse, Gogerddan, y dechreuwyd mwyngloddio o ddiffrif.

[I'w barhau yn rhifyn nesaf y Llythyr Newyddion]

### Mining in Ceredigion

(Extract from Randall Enoch's new book)

Copper, lead and silver have been mined in North Ceredigion for many centuries. The Romans mined lead in the Talybont and Llancynfelin areas, as did Bronze and Iron Age peoples before them. Evidence of mining litters the countryside and provides a poignant record of the hard life and extreme conditions experienced by the miners. Though miners' pay during the 18<sup>th</sup> and 19<sup>th</sup> centuries, compared with that of the agricultural worker was good, the work was hard as gravestones in many local churchyards bear witness to their premature deaths.

in an age, and entail poverty for hundreds for generations to come ... the waters from the mines spread sterility over adjoining fields and kill all the fish in the rivers".

It was not until 1689, when silver was discovered at Esgairhir east of Talybont on land owned by Sir Carbery Pryse of Gogerddan, that mining started in earnest.

[To be continued in the next edition of the Newsletter.]

Organised mining started around 1550 when the Allt y Crib mine was sunk near Talybont. However, this soon flooded and was abandoned until 1600 when it again became an important source of lead. Subsequently the more valuable silver attracted prospectors and considerable amounts were found in Cwmsymlog.

In early sixteen hundred Sir Hugh Myddleton leased land in North Ceredigion from James I. He had already made a huge personal fortune, which he used to construct a water supply for London. From 1637 Thomas Bushell introduced improved mining techniques around Talybont and minted silver coins, stamped with ostrich feathers, in Aberystwyth Castle. He became so rich that he clothed the army of Charles I and maintained a regiment of soldiers from the miners.

However, Bushell left in 1647 with large debts, for mining was always precarious and short lived. Indeed one of the local gentry remarked, "Mines enrich a person or two



Roman mine, Talybont